Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

CAREER CHOICES DEWIS GYRFA (CCDG) yn gweithredu o dan enw Gyrfa Cymru.

Penodi Cadeirydd

Dyddiad cau:
20 Medi 2021 am 16:00

Rheoleiddiwyd gan y
Comisiynydd Penodiadau
Cyhoeddus

Cynnwys

Gwneud cais

Atodiad A: Rôl y Bwrdd a'r Cadeirydd

Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau CCDG

Atodiad C: Y broses ddethol

Gwneud cais

Diolch am fynegi diddordeb yn y penodiad i fod yn Gadeirydd Gyrfa Cymru.

Mae Cadeirydd Bwrdd CCDG yn:

- rhoi arweiniad effeithiol, diffinio a datblygu cyfeiriad strategol ac yn gosod amcanion sy'n cynnig her;
- hyrwyddo safonau uchel o gyllid cyhoeddus a chynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian;
- sicrhau bod gweithgareddau CCDG yn cael eu cynnal yn effeithlon ac yn effeithiol
- monitro perfformiad i sicrhau bod CCDG yn ysgwyddo'i ddyletswyddau, amcanion, nodau a thargedau perfformiad.

Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion am rôl y Cadeirydd a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau Gyrfa Cymru a'r broses ddethol.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-en-GB/mobile-0/appcentre-3/brand-2/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/.

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar swydd Cadeirydd CCDG, ac yna cliciwch ar y botwm ‘Gwneud cais’ ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro gyntaf i chi wneud cais am swydd, bydd angen i chi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon, trwy eich cyfrif.

Unwaith ichi gofrestru, byddwch yn gallu cael mynediad at y ffurflen gais. I wneud cais, bydd angen i chi lanlwytho datganiad personol a CV i'r adran 'Rhesymau dros ymgeisio' o'r ffurflen ymgeisio ar-lein.

Datganiad personol
Y datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir ym manyleb y person. Chi sydd i benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech anelu at ddarparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut y mae'ch gwybodaeth a'ch profiadau yn cyd-fynd â phob maen prawf, ac sy'n disgrifio'ch cyfraniad at gyflawni canlyniad penodol. Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol os gallwch nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf.

Ni ddylai eich datganiad personol fod yn hirach na dwy dudalen. Mae’n bosibl y caiff eich cais ei wrthod os ydych yn mynd dros y terfyn hwn.

CV
Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Geirda
Rhowch ddau ganolwr (cyflogwr a phersonol) y byddwn yn cysylltu â nhw ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus yn unig.

Amserlen fras

Dyddiad cau:	20 Medi am 16:00
Dethol y rhestr fer:	30 Medi
Cyfweliadau:	15-16 Tachwedd

Datganiad amrywiaeth
Mae Llywodraeth Cymru'n credu y dylai cyrff cyhoeddus gael aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu'r gymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyma pam bod Llywodraeth Cymru'n annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol.

Hyderus o ran anabledd
Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, lle cydnabyddir bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gweithredu i analluogi pobl sydd â namau neu gyflyrau iechyd neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff (neu aelodau staff newydd posibl) berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ("nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd").

Rydym yn gwarantu y byddwn yn cynnig cyfweliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni'r 'meini prawf sylfaenol' yn golygu bod rhaid ichi roi tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni'r lefel cymhwysedd ar gyfer y swydd a'ch bod yn meddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai hanfodol.

Rydym wedi ymrwymo i gyflogaeth a datblygiad gyrfa pobl anabl. Os hoffech gael cyfweliad gwarantedig, cysylltwch â'n Tîm Penodiadau Cyhoeddus drwy e-bostio penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru i roi gwybod iddynt.

Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain a bod angen i chi drafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, cysylltwch â'n Tîm Penodiadau Cyhoeddus cyn gynted â phosibl a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Cyswllt:
I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Penodiadau Cyhoeddus / Uned Cyrff Cyhoeddus
E-bost: penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am rôl Bwrdd CCDG a rôl y Cadeirydd, cysylltwch â:
sam.evans@llyw.cymru

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch i wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â
penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i
www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus

Atodiad A

Penodi Cadeirydd i Fwrdd CCDG
Y rôl a manyleb y person

Rôl Bwrdd CCDG

Rôl y Bwrdd yw:

- Rhoi arweiniad effeithiol i CCDG, diffinio a datblygu cyfeiriad strategol a gosod amcanion sy'n cynnig her.
- Sefydlu a datblygu nodau ac amcanion strategol CCDG sy'n gyson â'i ddiben cyffredinol ac o fewn y fframwaith polisi ac adnoddau a bennir gan y Gweinidog.
- Sicrhau bod strategaethau'n cael eu datblygu ar gyfer cyflawni amcanion CCDG ar y cyd â Gweinidogion Cymru, a rhanddeiliaid perthnasol eraill, er enghraifft cyflogeion, cwsmeriaid a darparwyr cyllid.
- Sicrhau bod y Gweinidog a'r tîm partneriaeth yn cael gwybodaeth lawn am unrhyw newidiadau sy'n debygol o effeithio ar gyfeiriad strategol CCDG neu ei allu i gyrraedd ei dargedau, a'r camau sydd eu hangen i ddelio â newidiadau o'r fath.
- Hyrwyddo'r safonau uchaf o ran cyllid cyhoeddus a chynnal egwyddorion rheoleidd-dra, uniondeb a gwerth am arian.
- Sicrhau bod gweithgareddau CCDG yn cael eu cynnal yn effeithlon ac yn effeithiol.
- Monitro perfformiad i sicrhau bod CCDG yn ysgwyddo'i ddyletswyddau, amcanion, nodau a thargedau perfformiad.
- Sicrhau bod CCDG yn ystyried cyfle cyfartal wrth gymeradwyo polisïau a gwneud penderfyniadau.
- Sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i roi sicrwydd ar reoli risg, gan gynnwys diogelwch gwybodaeth, llywodraethu, archwilio mewnol, archwilio allanol a rheolaeth fewnol yn unol â gofynion statudol a rheoliadol perthnasol a, lle bo'n berthnasol, Codau Ymarfer neu ganllawiau eraill sy'n berthnasol i'r sector.
- Hyrwyddo egwyddorion Nolan mewn bywyd cyhoeddus: anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth.

Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am y canlynol:

- Sicrhau cydymffurfedd ag unrhyw ofynion statudol neu weinyddol mewn perthynas â defnyddio cyllid cyhoeddus.
- Bod y Cwmni'n gweithredu o fewn terfynau ei awdurdod ac unrhyw awdurdod dirprwyedig y cytunwyd arno gyda'r tîm partneriaeth, ac yn unol ag unrhyw amodau eraill sy'n ymwneud â defnyddio arian cyhoeddus.
- Bod y Cwmni'n ystyried canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.
- Derbyn ac yn adolygu'n rheolaidd gwybodaeth ariannol am reolaeth y Cwmni.
- Hysbysu'r Gweinidog mewn modd amserol am unrhyw bryderon am weithgareddau'r Cwmni, gan gynnwys gweithgareddau a allai effeithio ar lefel yr adnoddau sydd eu hangen yn y dyfodol, ac unrhyw newidiadau polisi neu ymarfer a allai fod â goblygiadau ariannol eang.

- Cymryd camau adferol priodol i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon neu newidiadau o'r fath sydd â goblygiadau ariannol eang, a rhoi sicrwydd cadarnhaol i'r Gweinidog drwy'r tîm partneriaeth am yr un peth.

Rôl Cadeirydd Bwrdd CCDG

Mae'r Cadeirydd yn atebol i Weinidog yr Economi a gall Senedd Cymru hefyd ei dwyn i gyfrif. Mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am sicrhau bod polisïau a chamau gweithredu'r Bwrdd yn cefnogi polisïau strategol ehangach y Gweinidog, a bod materion y Cwmni yn cael eu cynnal gydag uniondeb.

Mae gan y Cadeirydd gyfrifoldebau arwain penodol dros:

- Lunio strategaethau'r Bwrdd.
- Dangos safonau uchel o lywodraethu corfforaethol bob amser.
- Sicrhau bod y Bwrdd yn gwneud penderfyniadau, yn rhoi ystyriaeth briodol i ofynion rheoli statudol ac ariannol a'r holl ganllawiau perthnasol gan gynnwys canllawiau a ddarperir gan Weinidogion Cymru.
- Hyrwyddo'r defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o staff ac adnoddau eraill.
- Sicrhau safonau uchel o reoleidd-dra, priodoldeb a llywodraethu.
- Cynrychioli barn y Bwrdd i'r cyhoedd.

Rhaid i'r Cadeirydd hefyd:

- Sicrhau bod holl aelodau'r Bwrdd yn cael eu briffio'n llawn ar delerau eu penodiad ac ar eu dyletswyddau, eu hawliau a'u cyfrifoldebau.
- Sicrhau bod aelodau'r Bwrdd yn cael hyfforddiant priodol, gan gynnwys ar ofynion rheoli ariannol ac adrodd cyrff y sector cyhoeddus ac ar y gwahaniaethau a allai fodoli rhwng arferion y sector preifat a'r sector cyhoeddus.
- Asesu perfformiad aelodau unigol o'r Bwrdd yn unol â'r trefniadau y cytunwyd arnynt gyda'r tîm partneriaeth.
- Sicrhau bod Cod Ymddygiad ar waith ar gyfer aelodau'r Bwrdd.

Manyleb y person

Mae CCDG yn chwilio am Gadeirydd newydd i'r Bwrdd sydd ag amrywiaeth o arbenigedd, ar draws amrediad o sectorau economaidd, proffesiynau a grwpiau cymdeithasol.

Er mwyn cael eich ystyried, **rhaid** ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o'r meini prawf hanfodol ar gyfer penodi.

Meini prawf hanfodol

- Hanes profedig o gyflawniad yn y sector preifat / cyhoeddus / cymunedol / gwirfoddol, gyda'r gallu i lunio barn gadarn a strategol.
- Dealltwriaeth o'r berthynas ddeinamig rhwng polisïau'r llywodraeth a darparu darpariaeth gyrfaoedd ar lawr gwlad.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion yn ymwneud â dysgu a gwaith ar lefel gymunedol, lleol, rhanbarthol neu genedlaethol.
- Dealltwriaeth gadarn o gyllid a llywodraethu corfforaethol.
- Hanes profedig o feithrin cydberthnasau ag amrywiaeth o randdeiliaid a sgiliau cyfathrebu rhagorol, gyda'r gallu i egluro materion cymhleth yn glir ac yn gryno, tra'n dangos parch at farn pobl eraill.
- Sgiliau rhyngbersonol, dylanwadol a negodi cryf, gyda'r gallu i herio a llunio barn gadarn yn adeiladol wrth wneud penderfyniadau strategol.
- Dealltwriaeth a ddangoswyd o egwyddorion hawliau dynol, cydraddoldeb a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, ac ymrwymiad iddynt.

Y Gymraeg

Dylai pob ymgeisydd ddangos eu bod yn ymwybodol o bwysigrwydd y Gymraeg mewn cenedl ddwyieithog, gan werthfawrogi polisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith. Mae sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer y penodiad hwn yn ddymunol ar lefel 2[1]

Mae CCDG yn darparu gwasanaethau dwyieithog a bydd yn chwarae rôl amlwg wrth hyrwyddo ac integreiddio cymorth a chyngor ynghylch y Gymraeg a sgiliau Cymraeg fel rhan o'i weithrediadau ac wrth ddarparu gwasanaethau cynghori.

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad:	Mae cyfarfodydd CCDG, a gynhelir bob chwarter, yn cael eu cynnal yn rhithiol ar hyn o bryd. Pan fydd cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn gallu ailddechrau, cynhelir cyfarfodydd mewn lleoliadau ledled Cymru a'r disgwyl yw y bydd aelodau'r Bwrdd yn ymgysylltu â'u dyletswyddau ar sail Cymru gyfan. Fel rhan o addasiad rhesymol, rhoddir ystyriaeth i geisiadau am aelodau sy'n dymuno parhau i gyfrannu o bell.

1 Sgiliau Iaith Gymraeg Lefel 2: Gallu deall sgyrsiau sylfaenol am bynciau bob dydd / Gallu darllen deunydd syml ar bynciau bob dydd gyda dealltwriaeth / Gallu sgwrsio mewn sgyrsiau syml sy'n gysylltiedig â gwaith / Gallu ysgrifennu gohebiaeth syml sy'n gysylltiedig â gwaith.

Ymrwymiad amser:	Bydd disgwyl i chi ymrwymo uchafswm o 40 diwrnod y flwyddyn.
Hyd y penodiad:	Bydd cyfnod eich penodiad yn dechrau ar 11 Ionawr 2022 ac yn dod i ben ar 10 Ionawr 2025. Gall y penodiad gael ei derfynu'n gynnar gan y naill parti neu'r llall drwy roi mis o rybudd yn ysgrifenedig. Gall eich swydd fel Aelod o Bwrdd gael ei chymryd oddi wrthych cyn diwedd hyd cyfnod y penodiad os byddwch yn destun gorchymyn methdalu. Gallwch wasanaethu hyd at ddau dymor tair blynedd yn olynol yn y swydd, yn amodol ar gymeradwyaeth Gweinidogol. Disgwylir i chi fynychu'r cyfarfodydd yn rheolaidd. Efallai y bydd eich penodiad yn cael ei derfynu, heb rybudd, os bydd eich presenoldeb mor afreolaidd fel ei fod yn ymyrryd â'r ffordd dda o redeg Gyrfa Cymru
Cydnabyddiaeth ariannol:	Telir £337 y dydd am y swydd ar gyfer mynychu cyfarfodydd neu weithgareddau eraill y cytunwyd arnynt sy'n ymwneud â gwaith Gyrfa Cymru. Telir hyn hyd at uchafswm ymrwymiad o 40 diwrnod y flwyddyn. Gwneir y taliad drwy system gyflogres Gyrfa Cymru. Ystyrir yr aelodau yn ddeiliaid swyddi at ddibenion treth ac Yswiriant Gwladol. O ganlyniad, codir treth incwm ar y ffïoedd sy'n daladwy a chyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1. Tynnir symiau Talu Wrth Ennill (PAYE) drwy system gyflogres Gyrfa Cymru a chaiff y ffi net ei thalu i ddeiliad y swydd. Ni fydd yn rhaid talu TAW ar y ffioedd. Caiff treuliau teithio a chynhaliaeth sy'n codi yn sgil mynd i gyfarfodydd CCDG neu ar ymweliadau ar ran CCDG eu had-dalu gan CCDG ei hun yn unol â'r gyfradd a ddefnyddir ar hyn o bryd mewn perthynas ag aelodau Pwyllgorau'r Llywodraeth. I hawlio ad-daliad, cysylltwch ag Ysgrifenyddiaeth CCDG. Mae'n bosibl y telir costau gofal plant ac unigolion dibynnol eraill, os cyflwynir derbynebau, yng nghyd-destun costau ychwanegol a fydd yn codi'n uniongyrchol o wneud gwaith i CCDG.
Rhoddion a lletygarwch:	Disgwylir i chi sicrhau y gall derbyn rhoddion a lletygarwch fod yn destun craffu cyhoeddus. Dylid

gwrthod rhoddion lle bynnag y bo modd, a dylid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am unrhyw gynigion. Lle byddai'n anymarferol neu fel arall yn anodd peidio â derbyn, dylech roi gwybod i Lywodraeth Cymru am y rhodd, y gwerth amcangyfrifedig a'r rhoddwr. Rhaid i chi gymryd cyfrifoldeb personol i sicrhau bod cofnod yn cael ei roi yng nghofrestr lletygarwch Gyrfa Cymru. Yn yr un modd, dylid cymryd gofal nad oes unrhyw eithafion yn ymwneud â chinio gwaith ac achlysuron cymdeithasol eraill.

Pwy sy'n gymwys

Pe byddai Bwrdd CCDG yn cael ei ddiddymu, ei ailstrwythuro neu ei ddirwyn i ben cyn diwedd cyfnod arferol eich penodiad, bydd eich penodiad yn cael ei derfynu ar ddyddiad y diddymiad neu ar ddyddiad arall a amlinellir mewn unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol.

Caiff y penodiad ei derfynu'n syth pe byddech yn cael eich dyfarnu'n euog o drosedd, a/neu os bydd Gweinidogion Cymru o'r farn bod eich ymddygiad yn golygu nad ydych o hynny ymlaen yn berson addas ar gyfer swydd Cadeirydd o Fwrdd CCDG.

Gall eich swydd fel Cadeirydd gael ei chymryd oddi wrthych cyn diwedd hyd cyfnod y penodiad os byddwch yn destun gorchymyn methdalu.

Dylai ymgeiswyr nodi hefyd bod aelodaeth o Gyrfa Cymru yn swydd sy'n eich anghymhwyso rhag bod yn aelod o Senedd Cymru o dan Orchymyn Anghymhwyso Senedd Cymru 2020.
Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020 (legislation.gov.uk).

Nodwch bydd gofyn i'r sawl a benodir fodloni gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn i'r penodiad gael ei gadarnhau.

Gwrthdaro o ran buddiannau

Bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Cadeirydd o Fwrdd CCDG, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'r rôl ar Fwrdd CCDG.

Trafodir unrhyw wrthdaro buddiannau yn y cyfweliad. Os cewch eich penodi, bydd hefyd yn ofynnol i chi ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Diwydrwydd dyladwy

Bydd Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru'n cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd sy'n cael ei ddidoli'n llwyddiannus i gyfweliad. Bydd hyn yn cynnwys, ond nid o reidrwydd yn gyfyngedig i chwiliadau ar y cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngrwyd. O ganlyniad, efallai y gofynnir cwestiynau i chi yn y cyfweliad mewn perthynas ag unrhyw ganfyddiadau diwydrwydd dyladwy.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl i chi ddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Gofynnir i bob ymgeisydd llwyddiannus danysgrifio i'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o Fyrddau Cyrff Cyhoeddus, ac mae'r ddogfen hon ar gael yma:

https://www.gov.uk/government/publications/code-of-conduct-for-board-members-of-public-bodies

Atodiad B

Rôl a chyfrifoldebau CCDG - Gyrfa Cymru

Y cefndir

Mae Career Choices Dewis Gyrfa Ltd (CCDG) yn is-gwmni dan berchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru a ffurfiwyd ar 1 Ebrill 2013. Enw masnachol y cwmni yw Gyrfa Cymru, ac mae'n darparu gwasanaethau amrywiol sy'n integreiddio'r defnydd o dechnolegau digidol ochr yn ochr â chyfryngau wyneb yn wyneb mwy traddodiadol. Mae'r cwmni'n darparu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor ac arweiniad am yrfaoedd, sy'n ddiduedd ac yn ddwyieithog, i bobl o bob oed yng Nghymru.

Mae Gyrfa Cymru'n cefnogi cwsmeriaid i fod yn fwy effeithiol wrth gynllunio a rheoli eu gyrfaoedd, gan gydnabod nad yw rheoli gyrfa bellach yn golygu dewis un yrfa yn unig, ond yn hytrach ddilyn llwybr gyrfa o wahanol swyddi ar hyd eich oes. Drwy wella sgiliau a chymwyseddau rheoli gyrfa, gall cwsmeriaid drosglwyddo o un swydd i un arall yn rhwyddach, mwynhau lefel uwch o foddhad o ran gyrfa, a chwarae rhan fwy gweithgar yn yr economi.

Ym mis Ebrill 2021, lansiodd Gyrfa Cymru eu Gweledigaeth pum mlynedd, 'Dyfodol Disglair'. Uchelgais Dyfodol Disglair yw creu dyfodol mwy disglair i bob person ifanc ac oedolyn yng Nghymru. Er mwyn cyflawni'r uchelgais hwn mae Gyrfa Cymru wedi datblygu pedwar nod strategol:

- Darparu gwasanaeth cyfarwyddyd gyrfaoedd ac anogaeth dwyieithog, cynhwysol a diduedd i bobl Cymru.
- Datblygu ei waith gyda chyflogwyr, darparwyr hyfforddiant ac entrepreneuriaid i ddeall eu gofynion sgiliau a'u cyfleoedd i bobl ifanc ac oedolion
- Cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru a chyfrannu at gyflawni ei bedwar diben ar gyfer dysgwyr.
- Datblygu gweithlu medrus, ymgysylltiol ac ystwyth yn Gyrfa Cymru a'i alluogi i ddarparu gwasanaethau sy'n perfformio'n dda ac sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid

Ariennir eu gwaith sy'n cefnogi plant a phobl ifanc mewn addysg drwy eu grant Gyrfa Cymru craidd. Mae gan Gyrfa Cymru gyllideb o £18.8m o gyllid grant craidd gan Lywodraeth Cymru. Caiff eu gwaith i gefnogi'r rhai nad ydynt bellach mewn addysg ei ddarparu drwy eu Gwasanaethau Cymru'n Gweithio, a chaiff y gwaith hwn ei ariannu ar wahân.

Atodiad C

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i bennu pwy sy'n bodloni meini prawf y rôl orau, a phwy fydd yn cael gwahoddiad i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol.

Bydd y panel dethol yn cael ei gadeirio gan Emma Edworthy a bydd hefyd yn cynnwys Debra Williams, Sam Evans a Tom Wylie fel Aelod Annibynnol o'r Panel.

Mae'n bosibl y bydd eich cais yn cyrraedd y rhestr hir, yn ddibynnol ar nifer y ceisiadau a geir, cyn ei drosglwyddo i banel y rhestr fer ei ystyried. Dylech fod yn ymwybodol ei bod yn bosibl na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan bob aelod o'r panel mewn sefyllfa o'r fath.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu yn ystod mis Medi 2021 pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad ym mis Tachwedd 2021. Ein bwriad yw cynnal y cyfweliadau'n rhithiol.

Bydd y panel yn dewis yr ymgeiswyr cryfaf yn unig i gael cyfweliad y mae o'r farn eu bod wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn adran manyleb y person orau. Fodd bynnag, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweliad, **a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol sylfaenol** ar gyfer y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac nad yw dyddiad y cyfweliad eisoes wedi'i nodi yn y pecyn gwybodaeth hwn, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd â phosibl i chi o ddyddiad y cyfweliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad a drefnwyd ar gyfer y cyfweliad, byddwn yn ymdrechu i aildrefnu ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu pryd bydd y panel dethol ar gael.

Cewch e-bost oddi wrth canolfan ymgeisio Llywodraeth Cymru i roi gwybod i chi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweliad ai peidio. Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi ynghylch eich sgiliau a'ch profiad ac yn gofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn **bodloni'r meini prawf** a osodwyd ar gyfer y swydd ai peidio.

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu sy'n addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Gweinidogion, a nhw fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb Cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlch rhwng dyddiad y cyfweliad a phan fydd y penderfyniad terfynol ynghylch y penodiad yn cael ei wneud. Bydd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi'n Gadeirydd Bwrdd CCDG, a bydd y llythyr hwnnw hefyd yn cadarnhau o dan ba amodau y caiff y penodiad ei gynnig ichi.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn y cyfweliad, bydd Llywodraeth Cymru'n rhoi gwybod i chi. Rydym yn gwerthfawrogi bod angen llawer o amser ac ymdrech er mwyn ymgeisio am rolau, ac felly mae rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth ar eich cyfweliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

Ymholiadau
Os oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

Os nad ydych yn hollol fodlon
Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru. Yn ogystal, gallwch ysgrifennu at: Office of the Commissioner for Public Appointments, G/08, 1 Horse Guards Road, London SW1A 2HQ.